

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Mae Elizabeth Jones (Groes) a Glenys Jones (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Hywel Wyn Davies (Cefn Berain) aeth yno ganol yr wythnos. Mae Elizabeth Hughes (Llansannan) wedi cael ei symud i Ysbyty Bae Colwyn, ac fe fu Ann Evans (Llansannan) yn Ysbyty Arrowe Park ddiweddd yr wythnos diwethaf yn cael llawdriniaeth. Anfonwn ein cofion at bob un ohonyn nhw ac at eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan weddio y bydd Duw yn eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni ac ar iddynt gael profi cwmni'r Iesu mewn ffordd arbennig y dyddiau hyn. Cofiw'n hefyd am eu teuluoedd, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad.
- Llongyfarchiadau i Aled a Menna Jones (Llanefydd) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.

Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' sy'n cario 16 o bobl yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yn Llandudno ar ddydd Mercher, Mai 12fed. Os oes gennych ddi-ddordeb i deithio ar y bws, cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261, os gwelwch yn dda. Y cyntaf i'r felin....!

I ddod

- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **LLANW** – Os oes unrhyw un arall ag awydd cyd-deithio ar un neu fwy o'r diwrnodau i'r wyl fydd yn cael ei chynnal yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed–10fed, plis gadewch i Mair wybod **yn y dyddiau nesaf**. Yn yr un modd, os oes unrhyw un yn dymuno cael aros yno am yr wythnos, holwch Rhodri am fanylion ar fyrder gan mai dim ond pum caban sydd ar ôl erbyn hyn!
- **CYFARFOD CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Fawrth, Ebrill 28fed. Y siaradwr gwadd fydd y Parch. Christopher Prew.
- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed- am 10.00. Y siaradwr fydd Ei Anrhydedd Eifion Roberts a'r Parch. John Gwilym Jones. Croeso i bawb.
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Llandudno dydd Mawrth, Mai 12fed. Mwy o fanylion i ddilyn.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Mawrth 2015

Darlleniad y Dydd

Ioan 10: 7-15

(BCND tud.113 / BCN: tud.104)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n gwahanol oedfaon ar hyd a lled Bro Aled a ninnau'n dathlu Sul y Blodau. Wythnos wedi'r diwedd glo cyffrous i Bencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad, cofiwn am Iesu'n cyrraedd Jerwsalem i fonllefau'r dorf yn gweiddi: "Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd". (Mathew 21:9) Er mor briodol oedd y mawl yma, ymhen ychydig ddyddiau roedd tyrfa arall am waed Iesu, "Croeshoelia ef" oedd eu cri. (Marc 15:13) Diolchwn heddiw fod Iesu trwy ei groeshoeliad a'i atgyfodiad wedi profi ei fod yn Frenin uwchben y brenhinoedd sy'n llawn haeddu ein mawl, a gofynnwn iddo ddod i deyrnasu yn ein bywydau.

Yn ystod yr holl sylw a roddwyd i'r diffyg ar yr haul yn ddiweddar, cawsom ein hatgoffa mor anaml y mae'r olygfa ryfedd hon i'w gweld yng Nghymru. Yn 1999 y gwelwyd yr un ddiwethaf ac os yw'r gwybodusion yn gywir bydd rhaid i ni aros yn amyneddgar hyd 2026 i weld diffyg rhannol ar yr haul (tebyg i'r un sydd newydd fod), a hyd at 2090 i weld eclips llawn! Wrth i ni ystyried y neidiau yma mewn blynyddoedd, daw treigl amser a byrder bywyd yn amlwg i ni. Yn ôl Iago 4:14, mae'n bywyd fel tarth sy'n cael ei weld am ychydig, ac yna'n diflannu. Os felly, y cwestiwn naturiol i ni fel pobl ei ofyn yw lle mae ein diogelwch a'n gobaith? Pan gyfeiriodd Iesu ato'i hun fel Bugail Da roedd yn ychwanegu at y darlun Beiblaidd cyfarwydd o Dduw fel bugail dros ei bobl (gw. Salm 23 ac Eseciel 34). Rhoddodd awgrym cryf o'i ddwyfoldeb ei hun a llwyddodd hefyd i gyfleu'n eglur y berthynas arbennig rhyngddo â'i bobl. Iesu yw'r bugail sy'n gofalu am y praidd, hyd yn oed pan mae ymosodiadau a bygythiadau yn dod i'w rhan. Iesu yw'r bugail sy'n adnabod pob un o'r praidd yn unigol a hwythau'n ei adnabod Ef. Ac yn y pen draw, Iesu yw'r un sy'n fodlon caru i'r eithaf – marw dros y praidd i'w cadw'n ddiogel yn dragywydd. A oes gobaith a diogelwch sicrach na hyn ar gael i ni? Bydd pob bugail yn ein plith yn gyfarwydd â'r profiad rhwystredig ac annifyr o ddelio â cholledion wrth wyna, ond pan fyddwn ni yn troi at Iesu cawn addewid na chaiff neb ohonom ein cipio allan o'i law Ef (Ioan 10:28) – yn wir, bywyd yn ei holl gyflawnder a geir wrth berthyn i'w braidd. Iesu: bugail penigamp!

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 20:1-9 (BCND tud.126 / BCN: tud.115)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 29^{ain}

- **Oedfa'r Fro ar Daith** yn Llanfair am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd Aneurin yn pregethu.

Mercher – 1^{af}

- **Myfyrdod y Grawys** am 7.30 yng Nghanolfan Tanyfron ac yng Nghefn Meiriadog. Croeso i chi ymuno ble bynnag sy'n gyfleus i chi.

Gwener – 3^{ydd}

- **Oedfa Bore'r Groglith i'r Fro** – Oedfa gymun yn Llansannan am 10.30.

Sul nesaf – 5^{ed}

- **Oedfa'r Fro:** Byddwn yn ymuno mewn oedfa arbennig i ddathlu'r Pasg yn Llanefydd am 6.00 dan ofal yr ieuentid ac yng nghwmni Rhodri a Huw Tan y Graig.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac oedfa deuluol yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Mercher – 1^{af}

Bydd Cymdeithas Undebol Llanfair yn cyfarfod am 7.30 yn y Neuadd Goffa. Adloniant gan Mared Williams a'i ffrind.

Sul nesaf – 5^{ed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Mawrth – 31^{ain}

Bydd y Pwyllgor Adeiladau yn cyfarfod am 8.00.

Sul nesaf – 5^{ed}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Sul nesaf – 5^{ed}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00.

Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Sul nesaf – 5^{ed}

Bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Henllan am 10.00 pryd y bydd Manon a Llyr Morris yn cyflwyno Anni Haf i gael ei bedyddio. Yn ystod yr oedfa hefyd, fe fydd aelodau Capel Henllan yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Sul nesaf – 5^{ed}

Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Rhaghysbys

Os bydd y bleidlais yng Nghapel Henllan ar Fawrth 29ain yn gadarnhaol, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i'r oedfa yn Henllan ar Ebrill 12fed am 10.00 i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 29^{ain}

Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso i bawb!

Iau – 2^{il}

Gwener – 3^{ydd}

Cynhelir Oedfa'r Groglith yng Nghapel Cefn Berain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Dafydd Rees Roberts.

Sul nesaf – 5^{ed}

Bydd Gwasanaeth y Pasg yng Nghefn Berain am 10.00 yng nghwmni'r plant. Yn Llanefydd, bydd Gwasanaeth Teuluol y Pasg dan ofal yr Ysgol Sul ac yng nghwmni Aneurin am 10.00 ac oedfa arbennig dan ofal yr ieuentid hefo Rhodri a Huw Tan y Graig am 6.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.